RHAYMADRODD

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) yn cynrychioli pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, y 3 awdurdod tân ac achub a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol fel aelodau cysylltiol.

2. Mae'n ceisio darparu cynrychiolaeth i awdurdodau lleol o fewn fframwaith polisi sy'n dod i'r amlwg sy'n bodloni blaenoriaethau ein haelodau ac yn cynnig amrediad eang o wasanaethau sy'n ychwanegu gwerth at Lywodraeth Leol Cymru a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

3. Mae WLGA yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r Cais am Dystiolaeth mewn perthynas â Thai Carbon Isel: Yr Her.

4. Wrth ymdrin ag ystyriaethau cynnydd o ran tai carbon isel, rhaid cydnabod y cysylltiadau â gofynion a dyletswyddau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (Cyllidebau Carbon a Rheolaeth Gynaliadwy Adnoddau Naturiol), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (y Nodau Llesiant, yr Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy a'r 5 Ffordd o Weithio) a'r her sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

5. Wrth ddatblygu tai carbon isel, dylai olygu nid yn unig lleihau allyriadau carbon ond hefyd cyfrannu at liniaru tlodi tanwydd a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Cwestiwn 1: Pa gyfraniad y gall tai ei wneud wrth i Gymru bontio i economi rhad ar garbon, gan gynnwys yr effeithiau cadarnhaol posibl ar allyriadau nwyon tŷ gwydr?

6. Rhaid i gyfraniad tai wrth i Gymru bontio i fod yn garbon isel gydnabod sut mae gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gyd ran i'w chwarae wrth ei gyflawni.

7. Er y bydd adeiladu tai newydd ynni-effeithlon, carbon isel yn cyfrannu at y strategaeth allyriadau isel, rhaid cydnabod na fydd llawer o'r stoc tai presennol wedi ei adeiladu i'r un safonau ac y byddant yn dal i gael eu defnyddio yn 2050 a'r tu hwnt.

8. Bydd yr awydd am dai tai carbon isel yn cyfrannu at nod Deddf yr Amgylchedd o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan o leiaf 80% erbyn 2050. Gallai targedau dros dro cychwynnol fod yn fwy heriol na chynnydd llinol tuag at 80% h.y. gosod targedau cadarn, perthnasol, dealladwy a chyraeddadwy i hybu gweithredu **cynnar** ar unwaith i leihau allyriadau, fesul cyllideb, tuag at y targed o gyflawni neu ragori ar 80% erbyn 2050. Byddai rhoi dechrau dwys i'r targedau yng nghyllidebau carbon 2016 -2020 ➔ 2026-2030 yn dangos ymrwymiad ac yn cynnig yr impetws i symbylu cymryd camau. Fodd bynnag, byddai angen adnoddau priodol ar gyfer y dull hwn er mwyn iddo fod yn effeithiol.

9. Mae gan gynllunio ran o bwys i'w chwarae wrth bennu gofynion ar gyfer carbon isel ac effeithlonrwydd ynni mewn datblygiadau newydd (gweler Energiewend yn yr Almaen lle mae'n rhaid i gamau carbon isel a chynaladwyedd gael eu cynnwys wrth ddylunio ac adeiladu, gydag effeithlonrwydd ynni, paneli ffotofoltäig a thyrbinau gwynt yn cael eu lleoli o fewn cymunedau). O fewn Energiewend, mae ynni cymunedol yn chwarae rhan lawer mwy nag yn y Deyrnas Unedig lle mai gorsafoedd pŵer yw cynhyrchwyr pennaf ynni.

10. Mae cyflwyniad Safon Ansawdd Tai Cymru, cynlluniau amlennu adnewyddu allanol, rhaglenni amnewid bwyleri a gosod inswleiddiad atig (e.e. drwy ECO, ARBED a NEST) i gyd yn gallu helpu i sicrhau bod stoc tai cymdeithasol presennol mor ynni-effeithlon ag y gall fod. Mae sicrhau bod ffabrig adeiladau yn gywir yn bwysig am fod hynny'n cynnig manteision carbon tymor hwy.

Cwestiwn 2: Datblygiad y dechnoleg sydd ei hangen ar gyfer tai sy'n defnyddio ynni'n effeithlon iawn, ac i ba raddau y mae'r dechnoleg honno ar gael.

11. Gallai ymchwil a datblygiad storfeydd batri gael effaith sylweddol ar ddatblygiad tyrbinau gwynt a phaneli ffotofoltäig yn y dyfodol i ddiwallu anghenion cymunedau. Hefyd gellid ystyried cymhwysiad ehangach posibl technoleg tanwydd hydrogen.

12. O safbwynt economaidd, mae'n rhaid datblygu hyfforddiant a chynyddu gallu lleol i weithredu a gosod mesurau ynni-effeithlon, carbon isel i mewn i dai yng Nghymru.

13. Yn ogystal, byddai mesurau i wella datblygiad y gadwyn gyflenwi o fewn Cymru gyda chontractwyr/cyflenwyr/cynhyrchion lleol yn cyfrannu at yr economi leol ar yr un pryd â lleihau costau cludiant a'r allyriadau carbon cysylltiedig. Mae cyrchu cynaliadwy deunyddiau ar lefel leol yn bwysig hefyd. Wrth ddatblygu ac adeiladu prosiect Passivhaus yn Abertawe, cafodd llawer o rwystrau eu goresgyn wrth gaffael y deunyddiau arbenigol roedd eu hangen ar gyfer adeiladu passivhaus a sicrhau bod y gweithlu yn caffael y sgiliau angenrheidiol yn gyflym iawn i adeiladu'r eiddo yn unol â'r fanyleb anghonfensiynol hon.

14. Dylai fod cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer prosiectau ynni Cymunedol. Mae defnydd technoleg adnewyddadwy gan gynnwys solar PV, Pympiau Gwres o'r Ddaear ar gyfer ardaloedd nad oes ganddynt nwy gyda'r bwriad o ddarparu ar gyfer anghenion ynni lleol yn gallu helpu i sicrhau nad yw cymunedau gwledig dan anfantais neu'n denu costau/tariffau uwch, ac i ddod â dosbarthiad y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) i fyny i lefelau derbyniol. Mae dosbarthiadau SAP yn fesur effeithlonrwydd ynni.

Cwestiwn 3 – Pa newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod y stoc dai bresennol yn defnyddio ynni mor effeithlon ag y bo modd?

15. Mae'n hanfodol bod mesurau a gofynion effeithlonrwydd ynni yn cael eu hasesu gan syrfewyr annibynnol er mwyn sicrhau bod y mesurau effeithlonrwydd sy'n cael eu cyflwyno i mewn i stoc tai yn gymwys ac yn briodol. Byddai hyn yn lleihau risg cynnig mesurau 'tueddol' ac amhriodol.

16. Mae angen i stoc tai cymdeithasol barhau i gael ei ddwyn o dan WQHS e.e. rhaglenni amlennu a disodli bwyleri, ynghyd ag ystyried gosodiadau solar /storfeydd batri.

17. Bydd cyflwyniad mesuryddion deallus yn helpu i gyfrannu at well effeithlonrwydd ynni ond dylai fod un cynnyrch safonol ar gyfer pob cyflenwr/tariff i sicrhau cydweddiad wrth newid cyflenwyr.

18. Mae angen hwyluso ymchwil i safonau newydd, a'u datblygiad, er mwyn i holl eiddo'r sector cyhoeddus ac eiddo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a adeiladir o'r newydd fod o safonau effeithlonrwydd uchaf.

19. Mae cyflwyniad technoleg newydd ond yn effeithiol pan fydd defnyddwyr yn deall yn llawn sut mae'r dechnoleg yn gweithio, beth all gael ei gyflawni a pham mae'n bwysig ei gweithredu. Gall staff tai weithio gyda thenantiaid i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u defnydd ynni, cychwyn newid mewn ymddygiad gan gynnwys defnydd mesuryddion deallus, a sicrhau bod tenantiaid yn ymwybodol o dariffau uchel sy'n gysylltiedig â mesuryddion rhagdalu.

Cwestiwn 4: A yw'n bosibl ac yn ymarferol darparu tai fforddiadwy ar raddfa fawr yng Nghymru a'r rheiny'n effeithlon iawn o ran carbon ac yn cynhyrchu mwy o ynni nag y maent yn ei ddefnyddio ac, os felly, sut y gellir cyflawni hyn**;**

20. Mae angen penderfyniad i gyflawni llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy'r mesurau effeithlonrwydd ynni hyn. Byddant yn

cyfrannu at Reolaeth Gynaliadwy Adnoddau Naturiol a chyrraedd targedau cyllidebau carbon. Gall y camau gyfrannu hefyd at gyflawni Nodau Llesiant ehangach.

21. Mae angen cydnabyddiaeth a pharodrwydd i ddysgu gwersi o brosiectau yng Nghymru, y DU a mannau eraill yn y byd. Gall gwersi gael eu dysgu drwy arferion cymharu costau, meincnodi yn erbyn adeiladau a godir i safon effeithlonrwydd ynni uchel (e.e. safon Passivhaus).

22. Gallai prosiectau'r Rhaglen Tai Arloesol yng Nghymru fod yn ffynhonnell dda dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda a ble mae angen gwneud gwelliannau.

23. Mae angen ymrwymiad i ddarparu adnoddau digonol, gan gynnwys defnydd mentrau 'gwario i gynilo'. Roedd yr egwyddorion a fu'n sail i'r 'Fargen Werdd' yn gywir hyd yn oed os cafodd y rhaglen ei chyflwyno'n wael.

24. Mae angen i Weinidogion fod yn gryf yn eu penderfyniad i lwyddo. Mae'n hanfodol nad ydynt yn dod o dan ddylanwad gormodol datblygwyr a chontractwyr i dderbyn safonau adeiladu nad ydynt yn cynnig yr adenillion effeithlonrwydd ynni gofynnol a'r safonau o ran allyriadau carbon.

Cwestiwn 5: Y ffactorau sy'n rhwystr rhag cyflwyno newid trawsnewidiol ym maes adeiladu tai yng Nghymru?

25. Mae yna sawl rhwystr i gyflawni newid trawsffurfiol:

26. Efallai bod amharodrwydd ymhlith datblygwyr i groesawu'r newidiadau mae eu hangen i wella safonau ond na fyddant o bosibl yn rhoi adenillion digon mawr iddynt.

27. Mae honiadau bod manylebau uwch yn golygu costau uwch yr uned sy'n arwain at adeiladu llai o unedau.

28. Mae'n hanfodol bod hyfforddiant a datblygiad y gweithlu presennol a'r gweithlu sydd ar y gweill mewn sgiliau a thechnoleg newydd yn symud yn ei flaen i fodloni'r angen i atal prinderau sgiliau rhag mynd yn rhwystr (a allai gael ei waethygu petai cyfyngiadau ar symudiad llafur yn dilyn Brexit).

29. Ar hyn o bryd mae cymhelliant gwrthnysig mewn perthynas ag adeiladu sef nad yw adeiladu o'r newydd yn denu TAW ond mae TAW yn daladwy ar uwchraddio eiddo hŷn. Gall hyn ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch ôl-ffitio neu beidio neu ddymchwel a dechrau o'r newydd.

30. Gall datblygiad prosiectau ynni Cymunedol gael ei lesteirio gan ffioedd cysylltu gormodol i ymuno â'r Grid Cenedlaethol. Petai modd sefydlu mwy o grwpiau ynni Cymunedol i fodloni anghenion eu cymunedau, er enghraifft drwy ddefnyddio storfeydd batri, gallai hyn osgoi'r angen i gysylltu â'r grid cenedlaethol.

31. Mae yna rôl hefyd i raglenni cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth er mwyn addysgu tenantiaid a deiliaid tai i feddwl yn wahanol am sut maent yn defnyddio ynni ac i ddeall sut i ddefnyddio technoleg newydd.

Cwestiwn 6: Rôl Ofgem a'r grid cenedlaethol o ran galluogi'r grid i esblygu i ddarparu ar gyfer mathau newydd o dai, a'r heriau a gyflwynir wrth i ynni gael ei gyflenwi o ffynonellau wedi'u datganoli?

32. Mae angen adolygu dull canoledig presennol cynhyrchu a dosbarthu ynni i ymdrin â'r isadeiledd sy'n heneiddio a'i allu i ymateb i'r gofynion modern. Bydd rôl bwysig o hyd i grid cenedlaethol am y dyfodol rhagweladwy ac mae yr un mor bwysig nad yw datblygiad eang cynlluniau ynni cymunedol yn tanseilio hyfywedd y grid.
33. Byddai o fudd petai Ofgem yn archwilio modelau generadu a dosbarthu amgen fel Energiewend yn yr Almaen.

Cwestiwn 7: A oes gan Gymru'r sgiliau angenrheidiol i hwyluso a galluogi newid yn y sector tai;

34. Mae Ysgol Pensaernïaeth Cymru yn cymryd rhan mewn prosiect i fonitro cynllun Passivhaus yn Abertawe, a modelu i mewn unrhyw agweddau adnewyddadwy ychwanegol sy'n gwella'r fanyleb ymhellach. Bydd yr Ysgol, fel rhan o'r prosiect Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE), yn monitro'r tai wedi iddynt gael eu meddiannu i gynnwys perfformiad yr adeiladau, y systemau a'r deiliaid. Bydd yr Ysgol hefyd yn ymgymryd â modelu yn dilyn y dyluniad er mwyn ymchwilio i sut mae gwella'r tai ymhellach i fireinio'r agwedd carbon isel. Rhydd hyn adborth am broses gyfan newid yr ymagwedd draddodiadol at dai i ymagwedd carbon isel. Caiff y canlyniadau eu lledaenu'n eang mewn cylchgronau academaidd ac eraill a digwyddiadau i helpu i annog mabwysiadu technolegau carbon isel yn ehangach a hyrwyddo Cymru yn arweinydd ym maes tai newydd carbon isel fforddiadwy.
35. Yn 2015 cyhoeddodd Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu (CITB) fuddsoddiad o £6.5m i sefydlu cyfleuster hyfforddiant adeiladu arloesol yng Nghymru. Sefydlwyd consortiwm dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyda chyrff sy'n rhychwantu Cymru, a oedd yn cynnwys pedwar coleg addysg bellach ynghyd â'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) a Môr-lyn Llanw Bae Abertawe. Mae'r bartneriaeth arloesol hon yn cydweithio i ddatblygu darpariaeth gyson, ddi-dor ledled Cymru ar ffurf hyfforddiant arbenigol a phwrpasol cysylltiedig ag adeiladu o Lefelau 1-7.
36. Mae'r bartneriaeth wedi sefydlu Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru (CWIC), ar ffurf model prif ganolfan a lloerennau. Nod y Ganolfan yw gwneud cyfraniad sylweddol at dwf economaidd a chreu swyddi drwy ymateb i'r galw presennol am sgiliau yn y diwydiant adeiladu a diwydiannau cysylltiedig, yn ogystal â'r rhai sy'n codi o sawl prosiect adeiladu mawr sydd yn yr arfaeth i Gymru gan gynnwys y Metro, adeiladau niwclear newydd a phrosiectau ynni.

Cwestiwn 8: Pa newidiadau y mae angen eu gwneud i Reoliadau Adeiladu yng Nghymru er mwyn symud yn gyflymach tuag at safonau ynni lle y cynhyrchir bron ddim carbon, a thu hwnt i hynny?

37. Rhan L – Mae angen rhai gwelliannau i'r derminoleg a ddefnyddir. Dylai fod yn diffinio safonau yn hytrach na defnyddio terminoleg fel 'safon dderbyniol waethaf' gan fod hynny'n rhoi'r argraff y bydd y safon 'yn gwneud y tro'.

38. TAN12 - yn rhoi manylion cymunedau cynaliadwy, gwresogi cymunedol ac yn y blaen ond mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwared ar y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy. Mae angen eglurdeb am gyfeiriad y daith.

39. Mae angen rhoi ystyriaeth i sut mae bodloni targedau tai Cynlluniau Datblygu Lleol ar yr un pryd â gyrru safonau i fyny ar draws y sector.

40. Sut allwn ni sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu cyflawni drwy gytundebau Adran 106 yn garbon isel, yn ynni-effeithlon. Bydd hyn yn effeithio ar hyfywedd ac yn cyflenwi llai o unedau.

Cwestiwn 9: Sut mae cynllunio a siapio cymunedau i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon a chynhyrchu llai o garbon (gan gynnwys enghreifftiau o arfer da yng Nghymru a thu hwnt).

41. Gall cynlluniau peilot Parthau Dim Carbon gael eu defnyddio'n enghreifftiau o sut y gall cymunedau weithredu ar lefelau dim carbon neu'n agos at hynny, i lywio cyflyniad technolegau ac ymarferoldeb ledled Cymru.
42. Hyd yn hyn nid yw cynlluniau o'r fath wedi cael eu cyfathrebu'n arbennig o dda na'u cyfarparu'n ddigonol, felly yn aml nid ydynt yn llwyddiannus neu maent yn parhau'n araf yn y cefndir. Mae angen eu hwyluso er mwyn i'r canlyniadau gael eu gwireddu.
43. Gallai newidiadau i reoliadau adeiladu a pholisi cynllunio gael eu hystyried, gan weithio gyda datblygwyr ym mhob sector i sicrhau bod modd eu cyflawni.
44. Gallai datblygiadau newydd a phrosiectau adfywio newydd gan gynghorau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig arwain y ffordd.
45. Mae'n bwysig gallu dangos sut y gall ymagwedd deiliadaeth gymysg fod yn hyfyw o ran ad-dalu / gwerthiannau ar y farchnad pan fydd manyleb uwch wedi cael ei defnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: